Tim Peppin
Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu Cynaladwy
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4 Mai 2018

Annwyl Tim

Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Ystyrir mai anweithgarwch corfforol yw'r pedwerydd prif ffactor risg o ran marwolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif yn flaenorol mai cost anweithgarwch corfforol i Gymru yw £650 miliwn y flwyddyn. Rydym yn gwybod bod plant actif yn fwy tebygol o ddod yn oedolion actif ac rydym hefyd yn gwybod pa mor bwysig yw gweithgarwch corfforol wrth fynd i'r afael â gordewdra.

Fel rhan o'i ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y cyfleusterau sydd ar gael i'w defnyddio gan bobl ifanc. Yn benodol, rydym wedi ystyried pa mor bwysig yw lle priodol i chwarae wrth gynllunio datblygiadau newydd.

Credwn y dylid darparu mannau gwyrdd diogel a hygyrch lle mae unrhyw dai newydd sylweddol i gael eu caniatáu, er mwyn sicrhau nad yw diffyg lle i chwarae yn rhwystr i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol o enghreifftiau o arferion gwael ac achosion lle mae datblygiadau tai newydd wedi methu â darparu mannau priodol i chwarae.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) i'w ddwyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddem yn ddiolchgar o glywed eich barn ar yr hyn y credwch sy'n ofynnol i sicrhau bod mannau gwyrdd priodol yn rhan allweddol o gynllunio pob datblygiad newydd.

Yn gywir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon